Chwarae Sir y Fflint! - Hawl Pob Plentyn!

Mae tîm Datblygu Chwarae Sir y Fflint yn wasanaeth sydd yn gweithio'n agos gyda theuluoedd a chymunedau, ar gyfer holl blant a phobl ifanc yn Sir y Fflint.

Mae cynllun chwarae dros fisoedd yr haf ledled y sir, wedi cael ei gyflwyno mewn partneriaeth â chynghorau tref a chymuned lleol ac Urdd Gobaith Cymru, ers 1996.

Mae Prosiect Cyfeillion Sir y Fflint, sydd yn darparu gwasanaeth unigryw i ddarparu cymorth un i un pan fo angen i blant a phobl ifanc i gymryd rhan yn eu cynllun chwarae lleol yn ystod yr haf, wedi bod yn weithredol ers 2005.

Cyflwyno Prosiect Byw'n Egnïol a Phositif (Cymorth Chwarae a Hamdden) – Darparu gwasanaeth unigryw i blant a phobl ifanc hyd at 25 oed i ddarparu cymorth un i un i blant a phobl ifanc anabl i chwarae, cymryd rhan mewn cyfleoedd celfyddydol, hamdden, diwylliannol, chwaraeon a chyfleoedd cymdeithasol eraill.

Y sefydliad arweiniol dros ddyletswydd gyfreithiol yr awdurdodau lleol yng Nghymru, i asesu a sicrhau cyfleoedd chwarae ydi Datblygu Chwarae, trwy'r broses Cyfleoedd Chwarae Digonol Sir y Fflint. Mae hyn yn unol â Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010.

Mae Prosiect Cicio i Blant wedi cael ei ddatblygu ers 2016 er mwyn cynnig sesiynau hyfforddi pêl-droed i bob plentyn waeth beth yw eu modd o dalu, eu rhyw, ethnigrwydd neu anabledd. Mae'r holl sesiynau'n cael eu cynnal mewn awyrgylch 'hwyliog'. Mae pob plentyn yn cael ei annog i ddatblygu sgiliau, yn raddol ar eu cyflymder eu hunain. . Mae Cicio i Blant yn annog plant i fagu hunan-hyder a chynyddu hunan-fri fel mae'r sesiynau'n datblygu.

Cyflwyno partneriaeth allweddol gyda Phrosiect *Playful Futures* – Llwyddiant mawr ers 2015 ydi prosiect *Playful Futures Playful Schools*, sydd wedi gwella cyfleoedd i chwarae ar draws nifer o leoliadau ysgolion. Mae wedi gwneud gwahaniaeth mawr i'r diwrnod ysgol, trwy greu awyrgylch mwy chwareus, cefnogi llais y disgybl, a hyfforddi goruchwylwyr canol dydd.

I gael rhagor o fanylion cysylltwch â'r Tîm Datblygu Chwarae.

Tel | Ffôn | 01352744034/07518602614

Prosiect Cicio i Blant – 07814504957

Prosiect *Playful Futures* - 07773766301